

## Livescribe Echo Pen

Mae Livescribe Echo Pen (y cyfeirir ato'n aml fel 'livescribe') yn **sgrifbin clyfar**, sydd nid yn unig yn cofnodi sain darlith, ond hefyd yn digideiddio eich nodiadau llaw ac yn mynegeio/cysylltu'r sain yn awtomatig.

Gallwch chwarae eich recordiadau'n ôl, trwy seinydd mewmol neu benset, **trwy daro eich nodiadau gyda'r sgrifbin**. Bydd yn dechrau chwarae'r

recordiad o'r pwynt hwnnw yn y recordiad.



Gellwch hefyd **drosglwyddo** eich nodiadau mewn llawysgrifen a'ch sain i gyfrifiadur trwy gyfrwng y rhaglen Echo Desktop sydd am ddim, i'w cadw neu i weithio gyda nhw.

Os yw eich llawysgrifen yn ddigon taclus, gallwch ddefnyddio'r

livescribe i ysgrifennu aseiniadau ac yna ei **droi'n testun wedi'i deipio** drwy'r rhaglen MyScribe. Bydd angen i chi brawf-ddarllen hwn oherwydd weithiau mae'r rhaglen yn gwneud camgymeriadau.

Yn aml iawn mae **'3ydd penset'** yn cael ei ddarparu gyda'r sgrifbin. Set arbennig o glustffonau yw hwn yn

ei hanfod gyda microffonau mewnol i greu recordiad o ansawdd gwell.

Mae angen **padiâu ysgrifennu penodol** ar yr ysgrifbin er mwyn gweithio. Fel rheol cewch lwfans i brynu'r padiâu ysgrifennu hyn. Mae hefyd yn bosib gwneud allbrint o lyfrynnau nodiadau os bydd angen trwy gyfrwng rhaglen Echo Desktop, ond mae angen argraffydd laset i hyn weithio.

Dyma rai **awgrymiadau gan fyfyrwyr** ar sut i gael y defnydd gorau o'ch Livescribe Echo Pen:

1. **Gwnewch gopi wrth gefn o'r ffeiliau'n rheolaidd**, a chadw hwn ar CD neu yriant fflach.
2. **Gwefrwch eich ysgrifbin yn rheolaidd fel na fydd yn darfod yng nghanol darlith.**
3. Cadwch **gertris inc sbâr** wrth law rhag ofn i'r inc ddarfod.
4. Eisteddwch yn agos i flaen y ddarlithfa a defnyddiwch y **penset allanol**. Gosodwch y botymau clustiau ar wahân ond mor agos at y darlithydd / siaradwr ag y bo modd ac yn eu hwynebu. Rhowch y botymau clustiau ar ben rhywbeth meddal fel na fydd dirgryniadau'n difetha'r recordiad.

**Mae'r microffonau wedi'u lleoli yn y botymau clustiau.**

5. Wrth i'r ddarlith fynd rhagddi, nodwch **ddechrau pob sleid**, er enghraifft, ysgrifennwch: Sleid 1 – Rhagarweiniad. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i roi trefn ar eich recordiadau.
6. Tra byddwch yn cymryd nodiadau ac yn defnyddio'r penset allanol, ceisiwch gadw'r **cebl rhydd heb glymau**. Bydd hyn yn atal y botymau clustiau rhag symud a difetha'r recordiad.
7. Gellwch wneud **copïau o'ch recordiadau** yn y rhaglen Echo Desktop trwy eu rhannu i'ch bwrdd gwaith. Nid yw fformat ffeiliau Livescribe fel rheol yn gytûn â dyfeisiau/meddalwedd eraill, ond mae'n bosib allforio eich nodiadau ar ffurf ffeil .pdf neu'r recordiad sain yn unig fel ffeil .m4a sy'n llawer mwy cytûn.
8. Gellir **mewnforio** recordiadau Sonocent Audio Notetaker trwy'r fformat .m4a.
9. Mae Livescribe Echo Pen yn **ddefnyddiol iawn** os ydych yn hoffi gwneud **nodion â llaw yn ystod y dosbarth**.

